



Datganiad Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2026

Mae'r datganiad hwn yn cael ei wneud unol ag Adran 54(1), Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac mae'n amlinellu'r camau yr ydym wedi'u cymryd yn ystod y flwyddyn ariannol i sicrhau nad yw caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn ein busnes na'n cadwyni cyflenwi.

Strwythur y sefydliad

Mae Tai Hedyn Limited ("Hedyn" neu "y gymdeithas") yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) a ddaeth i fodolaeth pan unwyd cartrefi Dinas Casnewydd (CDC) a Chartrefi Melin (CM).

Mae Hedyn yn rheoli tua 15,000 o gartrefi ar draws pum ardal awdurdod lleol yn ne-ddwyrain Cymru, ac yn gweithio gydag amrywiaeth o gyflenwyr a chontractwyr yn y maes adeiladu, cynnal a chadw a gwasanaethau proffesiynol, gyda throsiant o £103.7m.

Diwydrwydd Dyladwy

Rydym yn sicrhau bod pob cyflenwr a chontractwr newydd yn destun diwydrwydd dyladwy, yn cynnwys:

- Holiaduron cyn-gymhwyso sy'n asesu risgiau caethwasiaeth fodern
- Cymalau cytundebol sy'n gofyn am gydymffurfio â'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern
- Mynd ati'n barhaus i fonitro ac adolygu cyflenwyr risg uchel

Er mwyn helpu i atal caethwasiaeth a masnachu pobl yn y cartrefi rydyn ni'n berchen arnynt ac yn eu rheoli, rydyn ni'n:

- cynnal asesiad 'Dod i'ch Adnabod' gyda phob ymgeisydd newydd i ddilysu'r wybodaeth a ddarperir cyn i ni gynnig llety; ac
- adnewyddu data mewnwelediad yn barhaus ymhob achos o ryngweithio â chwsmeriaid i liniaru'r risgiau perthnasol.



Mae telerau'r contract meddiannaeth rhwng y gymdeithas a deiliaid y contract (preswylwyr) yn caniatáu ymchwiliad llawn i unrhyw achosion posibl o fynd yn groes i feddiannaeth, gan gynnwys defnyddio'r fangre yn anghyfreithlon neu anfoesol, a gweithio gydag asiantaethau sy'n bartneriaid i ddatrys achosion o'r fath.

Camau a gymerwyd

Mae'r gymdeithas eisoes wedi cymryd mesurau i leihau'r risg o gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl, ac mae wedi ymrwymo i wella ei harferion ymhellach. Mae polisïau, gweithdrefnau a phrosesau ar waith sy'n adlewyrchu ymrwymiad i weithredu'n foesebol a gydag uniondeb, gan gynnwys:

- Mae'r broses dendro/ gaffael yn ei gwneud yn ofynnol i bob darpar gcontractwr/cyflenwr, sydd â throsiant o £36m ac uwch, gadarnhau'n ysgrifenedig eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern.
- Fel rhan o'r broses gaffael wrth fynd ati i gyflwyno tendr, bydd pob contractwr/cyflenwr, sydd â throsiant o £36m ac uwch, yn sicrhau bod unrhyw isgcontractwyr/cyflenwyr sy'n darparu gwasanaethau i'r gymdeithas, yn cydymffurfio â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.
- Mae'r polisi gwrth-lwgrwobrwyo wedi ymrwymo i gymhwyso'r safonau uchaf o ymddygiad moesegol ac uniondeb ar draws gweithgareddau'r gymdeithas. Mae pob cydweithiwr ac unigolyn sy'n gweithredu ar ran y gymdeithas yn gyfrifol am gynnal enw da'r gymdeithas ac am gynnal busnes mewn modd onest a phroffesiynol.
- Mae'r polisi chwythu'r chwiban wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o ansawdd, tryloywder ac atebolrwydd, a sefydlwyd gweithdrefn ar gyfer pryder ynghylch chwythu'r chwiban yn gyfrinachol a chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol gyfredol.
- Mae cydweithwyr yn gweithredu o fewn canllawiau diogelu ac mae unigolion mewn rolau perthnasol yn cael eu hyfforddi i nodi, monitro a chefnogi cwsmeriaid sy'n agored i niwed, gan gysylltu â darparwyr cymorth allanol yn ôl yr angen.
- Mae'r polisi cod ymddygiad yn ymrwymo pob cydweithiwr ac aelod o'r Bwrdd i weithredu ag uniondeb a thryloywder, a thrwy hynny osgoi unrhyw awgrym o ddylanwad gan gymhellion amhriodol.
- Mae'r broses recriwtio yn cynnwys gwiriad gorfodol i sicrhau cymhwysedd i weithio yn y DU.



- Mae telerau ac amodau cyflogaeth yn deg, ac mae'r gymdeithas wedi ymrwymo i hyrwyddo urddas a chydaddoldeb yn y gwaith ac yn y gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid.
- Darperir hyfforddiant perthnasol a chymesur i gydweithwyr i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â diogelu, caethwasiaeth fodern a chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Mae hyfforddiant caethwasiaeth fodern yn orfodol i gydweithwyr perthnasol ac mae ar gael i bob cydweithiwr. Bydd cwblhau'r hyfforddiant yn parhau i gael ei fonitro'n rhan o drefniadau sicrwydd cydymffurfiaeth y gymdeithas.

Byddwn yn sicrhau bod ein polisïau, ein gweithdrefnau a'n prosesau yn parhau'n gyfredol i sicrhau ein bod yn gwbl ymwybodol ac yn cydymffurfio â'r camau y mae angen i ni eu cymryd yn erbyn caethwasiaeth fodern a masnachu pobl.

Effeithiolrwydd

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd y gymdeithas yn ystyried adroddiadau cydymffurfio chwarterol ac yn parhau i adolygu pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r camau a gymerir i sicrhau nad yw caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn ein busnes na'n cadwyni cyflenwi.

Yn 2026/27, byddwn yn parhau i gryfhau ein hymagwedd trwy brofi ein cydweithwyr perthnasol wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol, cadarnhau bod rheolaethau caffael a diwydrwydd dyladwy yn parhau i fod yn effeithiol yn nhermau contractau, ac adolygu ein datganiad yn ôl canllawiau statudol diweddaraf y Swyddfa Gartref.

Yn unol â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 a'r canllawiau statudol cyfredol, bydd y datganiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Hedyn a'i lan lwytho i'r Gofrestrfa Datganiadau Caethwasiaeth Fodern ar ôl i'r Bwrdd ei gymeradwyo.



Cymeradwyaeth

Cymeradwywyd y datganiad hwn gan Fwrdd Hedyn ar 22 Gorffennaf 2026 a'i lofnodi gan:

Lynda Sagona

Cadeirydd y Bwrdd

Paula Kennedy

Prif Swyddog Gweithredol y Grŵp